# Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**2013 dccc 3**

**RHAN 3**

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

## 33 Darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed etc

(1) Mae Atodlen 3 (darpariaethau trosiannol etc) yn cael effaith.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig a darpariaeth arall sy'n briodol yn eu barn hwy mewn cysylltiad â'r Ddeddf hon neu i roi effaith lawn i'r Ddeddf hon.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (2) yn cynnwys, ymysg pethau eraill, diwygiadau i, neu ddiddymiadau a dirymiadau o, unrhyw ddeddfiad neu offeryn uchelfreiniol.

(4) Nid oes dim yn Atodlen 3 yn cyfyngu ar y pŵer a roddir gan is-adran (2); a chaiff gorchymyn o'r fath, ymysg pethau eraill, wneud addasiadau i'r Atodlen honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 33 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** A. 33 mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(t)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Adran 33.